Carfan y Sbectrwm Awtistig\Cyfathrebu

| Teitl y Cwrs | Disgrifiad | Dull Cyflwyno | Dyddiadau'r Gweithdai | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Tymor yr Hydref** | **Tymor y Gwanwyn** | **Tymor yr Haf** |
| Strategaethau amlsynhwyraidd ar gyfer plant cyn lleferydd | Diwrnod llawn o hyfforddiant sy'n darparu gweithgareddau amlsynhwyraidd-synhwyraidd wedi'u strwythuro ac ysgogol iawn i athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mae modd gwneud y gweithgareddau yma gyda disgyblion ifainc cyn lleferydd a disgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol a chymhleth, gan gynnwys disgyblion ifainc ag awtistiaeth/anghenion cyfathrebu cymdeithasol sylweddol. Nod y cwrs yw helpu i ddatblygu cysylltiadau rhwng yr oedolyn a'r disgybl ac mae'n addas ar gyfer staff y blynyddoedd cynnar a'r cyfnod sylfaen.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Datblygu'r sgiliau cyfathrebu cynnar.<br>• Strategaethau Ymgysylltu<br>• Trosolwg o sut i feithrin cysylltiadau gan ddefnyddio'r Rhaglen Chwilfrydedd<br>• Cyfle i drafod trosolwg o weithgareddau ac adnoddau 'tacpac'<br>• Cymorth gweledol a Gwrthrychau Cyfeirio<br>• Trosolwg o System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS) a strategaethau cyfathrebu amgen | Wyneb yn wyneb | 04/10/2023<br>9.30-15.30 | 06/02/2024<br>9.30-15.30 | 07/05/2024<br>9.30-15.30 |
| Trosolwg o Therapi Lego | Dyma drosolwg o ymyrraeth therapi Lego i athrawon a staff cymorth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau chwarae cydweithredol. Caiff yr ymyrraeth yma ei defnyddio i roi cymorth i blant ag awtistiaeth neu anawsterau rhyngweithio cymdeithasol. Mae therapi Lego yn gweithio ar feysydd allweddol rhyngweithio cymdeithasol, megis cymryd tro, gwrando, mentro, canolbwyntio'r llygad, datrys problemau a rhannu. Mae hefyd yn gweithio ar gysyniadau iaith megis maint, arddodiaid a lliwiau. Mae'r cwrs yma'n addas ar gyfer staff ysgolion cynradd ac uwchradd.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Beth yw Therapi Lego a sut mae'r therapi yn gweithio<br>• Sut i hwyluso sesiwn ar gyfer disgyblion penodol<br>• Gweithgaredd grŵp ymarferol – rhaid i chi ddod â darnau o Lego i'r sesiwn!<br>• Rhestr o adnoddau a sut i nodi cynnydd y disgybl | Wyneb yn wyneb | 18/10/2023<br>13.00-15.30 | 21/02/2024<br>13.00-15.30 | 22/05/2024<br>13:00-15.30 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg – Trosolwg o Therapi Lego | Dyma drosolwg o ymyrraeth therapi Lego i athrawon a staff cymorth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau chwarae cydweithredol. Caiff yr ymyrraeth yma ei defnyddio i roi cymorth i blant ag awtistiaeth neu anawsterau rhyngweithio cymdeithasol. Mae therapi Lego yn gweithio ar feysydd allweddol rhyngweithio cymdeithasol, megis cymryd tro, gwrando, mentro, canolbwyntio'r llygad, datrys problemau a rhannu. Mae hefyd yn gweithio ar gysyniadau iaith megis maint, arddodiaid a lliwiau. Mae’r cwrs yma'n addas ar gyfer staff ysgolion cynradd ac uwchradd.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Beth yw Therapi Lego a sut mae'r therapi yn gweithio<br>• Sut i hwyluso sesiwn ar gyfer disgyblion penodol<br>• Gweithgaredd grŵp ymarferol – rhaid i chi ddod â darnau o Lego i'r sesiwn!<br>• Rhestr o adnoddau a sut i nodi cynnydd y disgybl | Wyneb yn wyneb | 18/10/2023<br>9.30-12.00 | 21/02/2024<br>9.30-12.00 | 22/05/2024<br>9.30-12.00 |
| Materion synhwyraidd disgyblion ag Awtistiaeth | Trosolwg i athrawon ar yr anawsterau synhwyraidd a'r heriau y mae'n rhaid i bobl ag awtistiaeth eu goresgyn yn ddyddiol, y pethau i edrych amdanyn nhw a rhai strategaethau defnyddiol i'w hystyried.<br>Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant?<br>• Anawsterau synhwyraidd posibl sydd gan ddisgyblion ag awtistiaeth<br>• Beth i edrych amdano; ymddygiadau posibl sy'n amlygu eu hun<br>• Strategaethau i helpu i gefnogi disgyblion | Wyneb yn wyneb | 27/09/2023<br>9.30-12.00 | TBA | TBA |
| Buddion Dysgu yn yr Awyr Agored i Blant ag Anawsterau Synhwyraidd | Cynhelir y cwrs yng Nghoetir Cymunedol Cwm Dâr gan Lizzie Bufton, Therapydd Galwedigaethol, a Bethan Fletcher, Athrawes Arbenigol. Byddwn ni’n rhoi trosolwg i athrawon a staff cymorth o sut y gall yr amgylchedd awyr agored ac ethos Ysgol y Goedwig fod o fudd i bobl ag awtistiaeth, a chefnogi'r anawsterau a heriau synhwyraidd mae rhaid iddyn nhw eu goresgyn bob dydd.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Anawsterau synhwyraidd posibl sydd gan ddisgyblion ag awtistiaeth<br>• Pethau i fod yn effro iddyn nhw; ymddygiadau posibl<br>• Strategaethau i helpu disgyblion yn yr amgylchedd awyr agored<br>• Strategaethau ymarferol y mae modd eu rhoi ar waith mewn ysgolion | Wyneb yn wyneb | 11/10/2023<br>9.30-12.00 | 13/03/2024<br>9.30-12.00 | TBA |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthiadau Cynhwysol er mwyn Cefnogi Cyfathrebu Cymdeithasol ac Awtistiaeth | Mae Darpariaeth Gyffredinol mewn ysgolion yn cynnwys addysgu dosbarth cyfan, gwahaniaethu'n effeithiol, cynnal gwaith grŵp, ymyraethau unigolion a grwpiau bach, a gwneud addasiadau priodol a rhesymol er mwyn i ddisgyblion gael mynediad i amgylchedd, cwricwlwm a chyfleusterau'r ysgol. Bydd yr hyfforddiant yma'n cynnig strategaethau a chyngor sylfaenol i helpu i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion cyfathrebu cymdeithasol ac Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn rhan o ddarpariaeth gyffredinol ysgolion.<br>Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant?<br>• Defnyddio adnoddau gweledol fel rhestri gwirio ac amserlenni<br>• Sefydlu a defnyddio gweithfannau mewn ystafelloedd dosbarth<br>• Straeon cymdeithasol - trosolwg byr<br>• Defnydd effeithiol o systemau gwobrwyo unigol<br>• Addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion synhwyraidd<br>• Cynnal ymyrraeth gymdeithasol gyda grwpiau | Wyneb yn wyneb | 09/10/2023<br>9.30-12.00 | 29/01/2024<br>9.30-12.00 | 10/05/2024<br>9.30-12.00 |
| Cyfrwng Cymraeg – Dosbarthiadau Cynhwysol er mwyn Cefnogi Cyfathrebu Cymdeithasol ac Awtistiaeth | Mae Darpariaeth Gyffredinol mewn ysgolion yn cynnwys addysgu dosbarth cyfan, gwahaniaethu'n effeithiol, cynnal gwaith grŵp, ymyraethau unigolion a grwpiau bach, a gwneud addasiadau priodol a rhesymol er mwyn i ddisgyblion gael mynediad i amgylchedd, cwricwlwm a chyfleusterau'r ysgol. Bydd yr hyfforddiant yma'n cynnig strategaethau a chyngor sylfaenol i helpu i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion cyfathrebu cymdeithasol ac Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn rhan o ddarpariaeth gyffredinol ysgolion.<br>Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant?<br>• Defnyddio adnoddau gweledol fel rhestri gwirio ac amserlenni<br>• Sefydlu a defnyddio gweithfannau mewn ystafelloedd dosbarth<br>• Straeon cymdeithasol - trosolwg byr<br>• Defnydd effeithiol o systemau gwobrwyo unigol<br>• Addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion synhwyraidd<br>• Cynnal ymyrraeth gymdeithasol gyda grwpiau | Wyneb yn wyneb | 06/12/2023<br>9.30-12.00 | 07/02/2024<br>9.30-12.00 | 01/05/2024<br>9.30-12.00 |
| Datblygu Rhyngweithio Cymdeithasol a Chwarae | Darparu athrawon a staff cynnal dysgu'r Blynyddoedd Cynnar ac Ysgolion Cynradd gyda throsolwg o ran sut mae plant ag awtistiaeth a'u cyfoedion yn rhyngweithio'n gymdeithasol ac yn chwarae gyda'i gilydd. Bydd y cwrs hefyd yn cynnig strategaethau ymarferol a syniadau ar gyfer chwarae mewn modd cynhwysol, cefnogi dysgu yn seiliedig ar chwarae a chymdeithasoli ar gyfer plant ag awtistiaeth. | Wyneb yn wyneb | 13/11/2023<br>13.00-15.30 | 18/03/2024<br>13.00-15.30 | 17/05/2024<br>13.00-15.30 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Chwarae a'i bwrpas.<br>• Nodweddion chwarae, cryfderau a diddordebau plant ag awtistiaeth.<br>• Gwerthfawrogi gwahaniaethau a hoffterau unigol o ran cymdeithasoli.<br>• Pwysigrwydd sicrhau cyfleoedd cymdeithasol naturiol a rhyngweithiadau.<br>• Rôl yr amgylchedd awyr agored naturiol.<br>• Datblygu amgylchedd sy'n gyfoethog o ran chwarae (yn gymdeithasol ac yn gorfforol).<br>• Defnyddio rhaglenni a gemau sy'n meithrin sgiliau cymdeithasol. | | | | |
| Deall a Chynnal Ymddygiad Disgyblion ag Awtistiaeth | Dyma hyfforddiant sy’n rhoi trosolwg i athrawon a staff cymorth o'r rhesymau y tu ôl i ymddygiadau ac ystyriaethau ar sut i gefnogi disgyblion sy'n ymddwyn yn heriol.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Anawsterau synhwyraidd a chyfathrebu sy'n heriol i ddisgyblion<br>• Yr hyn sy'n sbarduno'r ymddygiad<br>• Sut i gynllunio a gweithredu strategaethau i gynorthwyo disgyblion sydd ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig | MS Teams | 15/11/2023<br>9.30-12.00 | | 12/06/2024<br>9.30-12.00 |
| Cyfrwng Cymraeg – Deall a Chynnal Ymddygiad Disgyblion ag Awtistiaeth | Dyma hyfforddiant sy’n rhoi trosolwg i athrawon a staff cymorth o'r rhesymau y tu ôl i ymddygiadau ac ystyriaethau ar sut i gefnogi disgyblion sy'n ymddwyn yn heriol.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Anawsterau synhwyraidd a chyfathrebu sy'n heriol i ddisgyblion<br>• Yr hyn sy'n sbarduno'r ymddygiad<br>• Sut i gynllunio a gweithredu strategaethau i gynorthwyo disgyblion sydd ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig | MS Teams | | 28/02/2024<br>9.30-12.00 | |
| Trosolwg o WellComm | Dyma sesiwn hyfforddi ar gyfer staff addysgu a staff cynnal sy'n gweithio mewn lleoliadau Cyfnodau Sylfaen. Mae'r cwrs yn ymdrin â rhaglen WellComm a sut i weithredu strategaethau o'r 'Big Book of Ideas'.<br>Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant?<br>• Sut i ddeall y rhaglen WellComm yn well<br>• Gallu gweinyddu a sgorio'r sgrin WellComm<br>• Gwybod sut i ddadansoddi a dehongli canlyniadau WellComm<br>• Dewis targedau perthnasol ar gyfer ymyrraeth | MS Teams | 22/09/2023<br>9.30-12.30 | 19/01/2024<br>9.30-12.30 | 07/06/2024<br>9.30-12.30 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trosolwg o weithgareddau denu sylw i blant ag awtistiaeth | Dyma hyfforddiant ar gyfer athrawon a chynorthwywyr dysgu sy'n darparu sesiynau a gweithgareddau sy'n denu sylw plant ag awtistiaeth ac anawsterau lleferydd ac iaith. Mae'r cwrs yma'n addas ar gyfer plant oedran cynradd sy'n mynychu ysgol prif ffrwd, Dosbarth Cynnal Dysgu neu ysgol arbennig.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Trosolwg ac eglurhad ar fideo o bedwar cam y dull awtistiaeth sylw ('Attention Autism')<br>• Cyfle i drafod amrywiaeth o weithgareddau mae modd eu gweithredu gyda grwpiau bach o blant<br>• Sut i gynllunio a gweithredu'r ymyrraeth<br>• Rhagor o syniadau ar gyfer camau 2 a 3 y dull awtistiaeth sylw | MS Teams | 10/11/2023<br>9.30-12.00 | 08/03/2024<br>9.30-12.00 | 10/06/2024<br>9.30-12.00 |
| Cefnogi Proses Bontio Lwyddiannus | Dyma gwrs hyfforddi hanner diwrnod i holl Gydlynwyr ADY ac athrawon sy'n rhoi cymorth i blant ag ADY megis awtistiaeth, anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, neu anawsterau iaith. Yn ogystal â phontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, mae'r hyfforddiant yma'n canolbwyntio ar ffyrdd o gefnogi'r broses bontio o ddydd i ddydd a phontio rhwng grwpiau blwyddyn / dosbarthiadau / athrawon.<br>Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant?<br>• Pwysigrwydd proses bontio wedi'i chynllunio<br>• Pontio o ddydd i ddydd: Cynllunio ar gyfer proses bontio lwyddiannus: pwysigrwydd cynllunio proses bontio, ffyrdd ymarferol, a datrysiadau<br>• Cynllunio ar gyfer symud dosbarth / symud i'r ysgol uwchradd – pwy ddylai fod yn rhan o'r broses, a phryd?<br>• Cydnabod pryderon rhieni a sut i'w cefnogi gyda'r broses bontio<br>• Sut i gefnogi'r disgybl wrth iddo bontio<br>• Syniadau a strategaethau ymarferol | MS Teams | 08/12/2023<br>9.30-12.00 | 14/03/2024<br>9.30-12.00 | 20/05/2024<br>9.30-12.00 |
| Straeon Cymdeithasol a Sgyrsiau Stribedi Comig | Mae Straeon Cymdeithasol yn adnodd defnyddiol i helpu plant sydd ag awtistiaeth ac anghenion cyfathrebu cymdeithasol i ddeall sefyllfaoedd cymdeithasol a'u paratoi nhw ar gyfer newid a phrofiadau newydd. Mae sgyrsiau stribedi comig yn rhoi cyfle i blant ddarlunio sgwrs, gan roi cymorth ychwanegol i'r rheiny sy'n ei chael hi'n anodd deall y broses o gyfnewid gwybodaeth yn ystod sgyrsiau.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Trosolwg o straeon cymdeithasol a sut i'w rhoi nhw ar waith<br>• Sut i ysgrifennu stori gymdeithasol effeithiol | MS Teams | 23/10/2023<br>9.30-12.30 | 23/01/2024<br>9.30-12.30 | 14/05/2024<br>9.30-12.30 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Enghreifftiau o straeon cymdeithasol<br>• Trosolwg o sgyrsiau stribedi comig a sut i'w rhoi nhw ar waith<br>• Sut i ysgrifennu sgyrsiau stribedi comig<br>• Adnoddau perthnasol<br>• Cyfleoedd i drafod | | | | |
| Merched ac Awtistiaeth | Mae'r hyfforddiant yma'n darparu trosolwg i athrawon a staff cynorthwyol o sut i adnabod a chefnogi anghenion merched sy'n fwy abl ac sy'n cyflwyno anghenion cyfathrebu cymdeithasol sy ddim yn ddwys.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Nodi'r ffordd mae merched yn cyflwyno dangosyddion awtistiaeth.<br>• Deall y prif resymau dros beidio rhoi diagnosis i ferched sydd ag awtistiaeth.<br>• Deall sut i gefnogi'r merched i feithrin perthnasoedd.<br>• Deall yr effaith mae cuddio dangosyddion awtistiaeth yn gallu'i chael.<br>• Deall yr effaith gall awtistiaeth ei chael ar iechyd meddwl a lles.<br>• Deall sut i gefnogi'r addysg y mae'r merched yn ei derbyn. | MS Teams | 20/11/2023<br>13.00-15.00 | 20/02/2024<br>13.00-15.00 | |
| Strategaethau i Ddisgyblion sydd ag Awtistiaeth/Pryder Cymdeithasol i'w defnyddio yn ystod amser egwyl a chinio | Cyflwyniad byr ar MS Teams i ddarparu strategaethau ymarferol a fydd yn helpu i wella lefelau cyfathrebu, ymddygiad a phryder yn ystod amser egwyl ac amser cinio.<br>Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant?<br>• Effaith awtistiaeth ar amseroedd egwyl a chinio<br>• Defnyddio strategaethau gweledol<br>• Pontio ac aros<br>• Amseroedd bwyd<br>• Cymorth gan gyfoedion<br>• Parthau | MS Teams | 10/10/2023<br>9.30-11.30 | 16/01/2024<br>9.30-11.30 | 14/05/2024<br>9.30-11.30 |
| Semanteg Lliwgar | Dyma gwrs hyfforddi hanner diwrnod wyneb yn wyneb ar gyfer athrawon sy'n cefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys Awtistiaeth. Bydd yr hyfforddiant yn edrych ar theori Semanteg Lliwgar cyn mynd ati i drafod ystod eang o ddulliau ymarferol a llawn hwyl i weithredu Semanteg Lliwgar yn yr ystafell ddosbarth.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Semanteg Lliwgar - y cyd-destun a'r theori<br>• Y lliwiau sy'n cael eu defnyddio yn rhan o'r Semanteg Lliwgar | Wyneb yn wyneb | 25/09/2023<br>9.30-12.30 | 29/02/2024<br>9.30-12.30 | 21/06/2024<br>9.30-12.30 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Dulliau ymarferol er mwyn rhoi dull Semanteg Lliwgar ar waith yn yr ystafell ddosbarth<br>• Materion i'w hystyried o ran y cwricwlwm<br>• Sut mae modd i ni weithredu'r dull Semanteg Lliwgar mewn ffordd ryngweithiol<br>• Man cychwyn...<br>• Adnoddau | | | | |
| Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, gan gynnwys Awtistiaeth, mewn Ysgolion Uwchradd | Dyma gwrs hyfforddi hanner diwrnod ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae'r cwrs yma'n mynd i'r afael â'r 4 maes craidd sy'n berthnasol i ysgolion uwchradd wrth gefnogi plant a phobl ifainc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r 4 maes craidd sydd wedi'u nodi yn cynnwys: Sgiliau gweithredu goruchwyliol, rheoli cyfnodau pontio, adnoddau cymorth gweledol yn yr ystafell ddosbarth ac anawsterau o ran prosesu'r synhwyrau.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Sgiliau gweithredu goruchwyliol - beth yw ystyr y term yma?<br>• Sut i gefnogi dysgwyr ag anawsterau gweithredu goruchwyliol.<br>• Rheoli cyfnodau pontio: rhoi cymorth yn ystod cyfnodau pontio o ddydd i ddydd<br>• Rhoi cymorth yn ystod y cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd a'r camau nesaf.<br>• Adnoddau Cymorth Gweledol - pwysigrwydd adnoddau cymorth gweledol<br>• Y mathau gwahanol o adnoddau cymorth gweledol a sut mae modd defnyddio'r rhain yn yr ystafell ddosbarth mewn ysgol uwchradd.<br>• Anawsterau o ran Prosesu'r Synhwyrau - trosolwg o anawsterau synhwyraidd<br>• Strategaethau ymarferol i gefnogi dysgwyr mewn ysgol uwchradd. | MS Teams | 30/11/2023 | 04/03/2024 | 05/06/2024 |
| Beth yw Awtistiaeth? | Bydd yr hyfforddiant yn darparu trosolwg i athrawon a staff cymorth o sut i deimlo'n fwy hyderus wrth adnabod a deall awtistiaeth<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Ffeithiau, mythau a chamsyniadau<br>• Beth yw awtistiaeth?<br>• Bod yn effro i faterion niwroamrywiaeth<br>• Cyflyrau cyffredin sy'n cydfodoli<br>• Astudiaethau Achos<br>• Cyfeirio at ddolenni, hyfforddiant a gwefannau defnyddiol | MS Teams | 21/11/2023<br>9.30-11.30 | 21/03/2024 | 18/06/2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi datblygiad disgybl o ran eu dealltwriaeth o iaith a geirfa | Dyma gwrs hyfforddi ar gyfer pob aelod o staff mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd  sy'n cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, plant sydd ag Awtistiaeth, anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, neu anawsterau iaith.   Bydd y sawl sy'n mynychu yn cael cyfle i ddysgu am strategaethau cymorth i ddatblygu a hyrwyddo dealltwriaeth y disgybl o iaith a strategaethau ar gyfer datblygu geirfa.<br>Beth fydd cynnwys y cwrs?<br>• Deall Cynllun Lefelau Blank<br>• Sut i nodi lefelau wrth holi cwestiynau<br>• Sut i asesu lefelau'r disgybl<br>• Sut i gefnogi'r disgybl wrth symud o un lefel i'r llall<br>• Sut i gefnogi ymddygiad ar bob lefel<br>• Deall y broses datblygu geirfa<br>• Dysgu ystod o strategaethau i'w defnyddio er mwyn cefnogi disgybl i ddatblygu geirfa ac iaith fynegiannol | MS Teams | 25/10/2023<br>13.00-15.00 | 31/01/2024<br>13.00-15.00 | 24/04/2024<br>13.00-15.00 |